# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

**Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004**

**Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**

**Cynllunio Tref a Gwlad (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) Rheoliadau 2005 (fel y diwygiwyd yn 2015)**

**Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004**

**Rheoliadau Diogelu Cynefinoedd a Rhywogaethau Rheoliadau 2010 (fel y diwygiwyd yn 2012)**

## Hysbysiad Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Argymhellion Cyn-Adneuo ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol

## CYNLLUN DATBLYGU LLEOL MERTHYR TUDFUL (CDLl) – AMNEWID 2016-2031

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil (CBSMT) wedi paratoi dogfennau cyn-adneuo ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol a amnewidir. Wedi i'r CDLl sydd wedi ei amnewid cael ei fabwysiadu, bydd yn cymryd lle'r CDLl presennol a fabwysiadwyd yn 2011. Y cynllun hwn fydd yn ffurfio sail penderfyniadau ar gynllunio defnydd tir yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (ac eithrio'r ardal sydd ym Mharc cenedlaethol Bannau Brycheiniog.)

Mae'r dogfennau argymhellion cyn-adneuo yn cynnwys:

- Strategaeth a Ffafrir
- Gwerthusiad Cynaliadwyedd Cychwynnol (gan gynnwys Crynodeb nad sy'n Dechnegol)
- Adroddiad sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)

Mae dogfennau argymhellion cyn-adneuo yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol am gyfnod o 6 wythnos rhwng Dydd Gwener 14 Gorffennaf a 12.00pm (canol dydd) Dydd Gwener 6 Hydref 2017.

Byd dogfennau cefndirol, cefnogol eraill, gan gynnwys y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol hefyd yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad yn ystod y cyfnod hwn.

**Ar ddydd Gwener 25ain Awst 2017, mae tystiolaeth ychwanegol wedi dod i'r ymgynghoriad, felly mae'r cyfnod ymgynghori wedi'i ymestyn i ddydd Gwener 6ydd Hydref 2017, achos mae Asesiad Anghenion Preswyl Teithiwr Sipsi sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad wedi cael ei ddiweddaru i'r un hwnnw a arwyddwyd gan Weinidogion Cymru.**

Bydd pob dogfen ymgynghorol a ffurflen er mwyn gwneud sylwadau ar gael ar gyfer archwiliad cyhoeddus ym mhrif swyddfeydd y Cyngor, Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN ac mewn lleoliadau eraill a restrir isod yn ystod oriau gwaith cyffredin:

- Swyddfeydd y Cyngor, Uned 5, Parc Busnes Triongl, Pentrebach, Merthyr Tudful, CF48 4TQ
- Llyfrgell Ganolog Merthyr Tudful, y Stryd Fawr, Merthyr Tudful, CF47 8AF
- Hyb Llyfrgell Rhydycar, Canolfan Hamdden Merthyr Tudful, Merthyr Tudful, CF48 1UT
- Llyfrgell Treharris, Stryd Perrott, Treharris, Merthyr Tudful, CF46 5ET
- Lyfrgell Dowlais, Stryd yr Eglwys, Dowlais, Merthyr Tudful, CF48 3HS
- Llyfrgell Gymunedol Aberfan, Heol Pantglas, Aberfan, Merthyr Tudful, CF48 4QE

Byddant hefyd ar gael ar-lein yn: www.merthyr.gov.uk neu o Hwb Cwm Taf: www.cwmtafhub.co.uk

**Mae'n rhaid i sylwadau ar y dogfennau argymhellion cyn-adneuo, y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol ac unrhyw wybodaeth gefnogol arall gael eu gwneud yn ysgrifenedig a'u derbyn gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol rhwng 14 Gorffennaf 2017 a 12.00pm (canol dydd) ar 6 Hydref 2017.**

Gall sylwadau ynghyd â chais i anfon hysbysiad i gyfeiriad penodol bod yr CDLl wedi'i gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer archwiliad annibynnol o dan adran 64 o'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a mabwysiadiad cynllun datblygu lleol.

Bydd pob sylw a dderbynnir cyn y dyddiad cau yn cael eu cydnabod a'u hystyried, fodd bynnag, ni all y Cyngor warantu y bydd sylwadau a fydd yn cael eu derbyn ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.

Gallwch naill ai e-bostio ffurflenni sydd wedi eu cwblhau at: devplanning@merthyr.gov.uk neu eu postio at:

Y Pennaeth Cynllunio a Chefn Gwlad
Yr Adran Gynllunio a Chefn Gwlad
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Uned 5, Parc Busnes Triongl
Pentrebach
Merthyr Tudful
CF48 4TQ
Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch sut i gyflwyno'ch sylwadau, e-bostiwch y tîm CDLl:
devplanning@merthyr.gov.uk neu Ffoniwch 01685 726279

**MISS J JONES**
**Pennaeth Cynllunio a Chefn Gwlad**